

CYNGOR BRO LLANFAIRPWLL
Cofnodion Cyfarfod
Gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Llanfairpwll –
25ain Ionawr 2011

Presennol: Cyngorwyr John Roberts (Cadeirydd), Alun Mummery, Alun Jones, Gwynfor Parry, Alun Griffith, Hanna Huws, Bethan Jones, Eifion Jones, Ifan Bebb, Richard Eames, John Arwel Edwards
Cyngorwyr Sirol J. P. Williams, Jim Evans.
Anwen Jones (Clerc).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan y Cadeirydd.

1. Ymddiheuriadau: Arfon Williams, Gareth C. Jones, Malcolm Rowlands

2. Datganiadau Diddordeb Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad diddordeb

3. Materion y Cyngor Sir

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sirol J. P. Williams

Cyflwynwyd ymgynghoriad ar gyllideb y Cyngor Sir 2011/12.

Gofynnodd y cynghorydd os oedd unrhyw newyddion am y cais am ardal ddi alcohol. Adroddwyd bod yr Heddlu wedi methu cael y camera CCTV i Llanfairpwll gan nad oedd digon o dystiolaeth o angen amdano. Oherwydd hyn, teimlwyd nad oedd yn amserol i wneud cais am ardal ddi-alcohol gan fod angen peth tystiolaeth o broblemau yn ymwneud ac alcohol.

Adroddodd Cynghorydd J. Evans ei fod wedi cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor Sir i drafod y posibilrwydd o gael paentio llinellau melyn ger Carreg y Gad, Crossing Terrace a Co-op.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 14eg Rhagfyr 2010

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2010. Cynigiwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan A. Griffith bod y cofnodion yn rhai cywir. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn Codi o'r cofnodion

5.3. Ffens rhwng y Clwb Bowlio a Trem Eryri - Adroddodd y Clerc nad oedd Dafydd Rowlands o'r Cyngor Sir yn fodlon cyfarfod gydag aelodau'r Cyngor Bro a'r Clwb Bowlio. Awgrymodd Mr Rowlands i'r Cyngor Bro ysgrifennu at y Cyngor Sir i ddweud eu bod yn anghytuno mai cyfrifoldeb ar y cyd yw'r ffens.

Adroddodd A. Mummery hanes y ffens ac awgrymodd ysgrifennu at y Pennaeth Tai newydd sydd wedi'i phenodi.

10.2. Llwybr troed Lôn Dyfnia - y Clerc i ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn pwy oedd wedi gosod giât ar y llwybr ac i ba reswm.

6. Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 11eg Ionawr 2011

Cynigiwyd gan A. Griffith ac eiliwyd gan A.Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion

2.6 Y goedwig - nodwyd bod y broblem dwr yn sefyll yn y goedwig yn parhau. Y Clerc i ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i'w hatgoffa o'u cyfrifoldeb.

2.8 Plotiau blodau yn y Maes Parcio – nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau hyd yma.

3. Cyllideb 2011/12 – dim rhestr waith wedi dod i law gan y Clwb Peldroed Iau. Adroddwyd bod y clwb wedi trefnu amryw o waith eu hunain i'r pafiliwn. Nodwyd bod dau olau wedi'u gosod tu allan i'r adeilad a bo rhain wedi cael eu gadael ymlaen dros nos. Y Clerc i ysgrifennu at y Clwb Iau i ofyn iddynt ddifodd y golau ac hefyd i ofyn am allwedd i'r clo newydd.

8. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo

Cynigiwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion

2.4 Arwyddion dim cwn ar y cae – nodwyd gan A. Jones ei fod wedi gosod arwyddion newydd o amgylch y cae peldroed.

2.5. Bocs Baw Ci - y clerc eisoes wedi archebu'r bocs gan y Cyngor Sir. Nid yw wedi'i osod hyd yma.

10. Archwiliad Ariannol 2009/10

Derbyniwyd llythyr gan gwmi Hacker Young. Derbyniwyd y sylwadau a chytunwyd i arwyddo'r adroddiad ariannol.

11. Cyllideb 2011/12

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid 11eg Ionawr 2011. Rhoddwyd yr awgrymiadau canlynol ymlaen i'r Cyngor llawn.

Rhoddion Ambiwylans Awyr Cymru - £50.00
 Papur Menai £50.00
 Gofal Crossroads £30.00

Cytunwyd i'r rhoddion.

Cyllideb 2011/12

Cyflwynwyd cyllideb ddrafft ar gyfer 2011/12 i aelodau'r Cyngor.

Adroddodd A. Mummery, cadeirydd y pwyllgor cyllid fod y pwyllgor wedi ystyried nifer o ffactorau wrth baratoi'r gyllideb, e.e. y penderfyniad i archebu portacabin ar gyfer ei ddefnyddio fel swyddfa, gwaith sydd eisoes wedi'i adnabod bydd angen ei wneud yn ystod y flwyddyn nesaf yn ogystal ag ystyried yr holl waith sydd wedi'i gwblhau dros y ddwy flynedd diwethaf.

Nodwyd os cedwir y prisen yn £30,500 bydd y gyllideb yn dyn iawn. Cynigodd A. Mummery godi'r prisen i £31,500, eiliwyd hyn gan A. Jones. Cytunwyd o osod y prisen am 2011/12 yn £31,500.

12. Ceisiadau Cynllunio

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio. Nodwyd nad oes peirianwaith mewn lle i ddelio ac unrhyw geisiadau ddaw i law a fydd yn rhy hwyr i ymateb erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd dylai edrych ar greu pwyllgor i ddelio gyda'r ceisiadau hyn.

13. Cyfrifon mis Ionawr 2011

Cyflwynwyd rhestr derbyniadau a thaliadau am y mis. Cynigiodd J.Roberts ac eiliodd A. Griffith eu bod yn gywir. Cytunwyd i'r taliadau.

14. Gohebiaeth

- a) Penderfyniadau Cynllunio – er gwybodaeth
- b) Ymgynghoriad Cyllideb Cyngor Sir Ynys Môn 2011/12
- c) Hyfforddiant Cod Ymddygiad Cynghorwyr - er gwybodaeth
- ch) Royal British Legion – gwybodaeth am ymgyrch ‘Poppy Parties’ -cytunwyd i archebu pecyn am £10.99 tuag at yr achos. Ni fydd y Cyngor Bro yn trefnu parti.
- d) Cylchlythyr Ieuan Wyn Jones – er gwybodaeth.
- dd) Cynulliad – Arolwg Cynghorau Cymuned a Thref 2010 – er gwybodaeth.
- e) Un Llais Cymru – Garddwest Palas Buckingham – dim enwebiad.
- f) Un Llais Cymru – Cylchgrawn Y Llais – er gwybodaeth.
- ff) Cylchgrawn Wylfa – er gwybodaeth.
- g) Sŵn y Môr - er gwybodaeth.

15. Unrhyw Fater Arall

1. Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn 100mlwydd eleni. Nifer o weithgareddau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn.
2. Goleuadau Nadolig – Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo i edrych i mewn i'r syniad.
3. Cais wedi'i dderbyn gan aelod o'r cyhoedd am fainc yn y safle bws ger Rhos y Gad. Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo o edrych ar y mater.
4. Gorsaf Drên - Nodwyd bod golwg difrifol ar y lein a'r tŷ. Y Clerc i gysylltu â chwmni Pringles.
5. Safle We – Adroddodd A. Jones fod hyfforddiant ar gael i ddau aelod o'r Cyngor ar ddefnyddio'r safle we newydd. A. Jones i fynychu ac yna cynnal sesiwn hyfforddiant i weddill yr aelodau.
6. Awgrymodd y Clerc bod y Cyngor yn adolygu Rheolau Cyllidol, Rheolau Sefydlog, Asesiad Risg a Rhestr Asedau yn flynyddol. Cytunwyd i'w adolygu ym mis Ebrill. Y Clerc i'w roi ar agenda cyfarfod mis Ebrill.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Nos Fawrth 22ain Chwefror 2011 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.